**CYNGOR CAERDYDD**

COFNODION

**CYFARFOD Y CABINET**: 21 MEDI 2017

Aelodau Cabinet yn Bresennol: Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)
Y Cynghorydd Peter Bradbury
Y Cynghorydd Susan Elsmore
Y Cynghorydd Russell Goodway
Y Cynghorydd Graham Hinchey
Y Cynghorydd Sarah Merry
Y Cynghorydd Michael Michael
Y Cynghorydd Lynda Thorne
Y Cynghorydd Christopher Weaver
Y Cynghorydd Caro Wild

Gwylwyr: Y Cynghorydd Joe Boyle
Y Cynghorydd Adrian Robson

Hefyd: Y Cynghorydd Ramesh Patel (heblaw am rifau 21 a 22)

Swyddogion: Paul Orders, y Prif Weithredwr
Christine Salter, Swyddog Adran 151
Davina Fiore, Swyddog Monitro
Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet

Ymddiheuriadau:

**COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR 27 GORFFENNAF 2017**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2017.

**DERBYN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU AR AMGYLCHEDD: ADFER EIN HAFONYDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Patel, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol, adroddiad o'r enw Adfer ein Hafonydd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 20 o argymhellion a 140 o ganfyddiadau allweddol ar gyfer ystyriaeth gan y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:** derbyn yr adroddiad a pharatoi ymateb i'w ystyried gan y Cabinet erbyn Tachwedd 2017 os bydd modd.

## DERBYN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU AR AMGYLCHEDD: RHEOLI ARIAN ADRAN 106 AR GYFER DATBLYGU PROJECTAU CYMUNEDOL

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol, y Cynghorydd Patel yr adroddiad o'r enw 'Rheoli Cyllid Adran 106 ar gyfer Datblygu Projectau Cymunedol'. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad un broses.

**PENDERFYNWYD:** derbyn yr adroddiad a pharatoi ymateb i'w ystyried gan y Cabinet erbyn Tachwedd 2017 os bydd modd.

## NEWID PERCHENNOG CONTRACT SAFLE TRIN GWASTRAFF ORGANIG CAERDYDD

Ystyriodd y Cabinet adroddiad sy'n ceisio awdurdod i amrywio contract Gwaith Gwastraff Organig Caerdydd yn dilyn cais y contractwr i gael cymeradwyaeth i newid perchnogaeth. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod y gwiriadau holiadur cyn cymhwyso perthnasol wedi'u cwblhau.

**PENDERFYNWYD:** yn amodol ar (a) gymeradwyo'r diwygiadau penodol i'r contractau a'r dogfennau ategol (gan gynnwys yr IAA2 ond nid yn gyfyngedig iddi) a rhoi caniatâd yn unol ag argymhelliad 2 isod; a (b) chymeradwyaeth gan Gyngor Bro Morgannwg,

1. Y cytunir i'r contract gael ei amrywio er mwyn galluogi'r contractwr i geisio caniatâd, ar ddisgresiwn absoliwt y Cyngor, i newid perchnogaeth

2. Rhaid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Masnachol a Chydweithio mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i

    a. Gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau penodol i'r contract a dogfennau ategol (gan gynnwys yr IAA2 ond nid yn gyfyngedig iddi);
    b. Os cymeradwyir hynny, rhoi unrhyw ganiatâd ffurfiol yn unol â'r contract,
    c. Ymdrin ag unrhyw faterion ategol gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gytuno i unrhyw weithred/iadau amrywio cysylltiedig.

## DISODLI CERBYDAU CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU GAN RAI NEWYDD

***Mae Atodiad 2 yr adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi yn unol â darpariaethau Paragraff 12A Rhan 4 paragraff 14 a Rhan 5 paragraff 21 Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Derbyniwyd adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer dull caffael newydd o ran y fflyd casglu Ailgylchu a Gwastraff. Nodwyd y byddai'r fflyd newydd yn cynnig hyblygrwydd hirdymor ac yn cynnwys cerbydau newydd ar gyfer gofynion domestig a masnachol gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau casglu effeithlon a chost-effeithiol, ac a fyddai angen bod yn unol â pholisi datblygu cynaliadwy'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y câi cynnwys yr adroddiad ei nodi

2) y câi'r bwriad o ymestyn y trefniadau cytundebol presennol gyda Gullivers Truck Hire Ltd ei gymeradwyo

3) y câi'r dull a amlinellwyd i gaffael y cerbydau fflyd newydd ar gyfer casglu ailgylchu a gwastraff ei gytuno

4) y câi cymeradwyaeth derfynol y broses gaffael ei dychwelyd i'r Cabinet i'w chymeradwyo.

**TREFNIADAU'R UWCH DÎM RHEOLI**

***During consideration of this item, SeniorWrth ystyried yr eitem hon, nid oedd Uwch Swyddogion (ac eithrio'r Prif Weithredwr) yn bresennol***

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu cynigion ar gyfer ymgynghoriad ar y strwythur uwch-reoli diwygiedig a oedd yn unol â blaenoriaethau'r Weinyddiaeth fel y'u hamlinellwyd yn Uchelgais Prifddinas. Roedd y model newydd yn cynnwys swydd ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol a fyddai'n goruchwylio'r gwaith o integreiddio'r strategaethau tai, gofal cymdeithasol ac iechyd ac yn mynd i'r afael â chyflenwi gwasanaethau a'r heriau ariannol a wynebir gan ddinas sy'n tyfu. Cynigiwyd swydd Prif Swyddog Digidol hefyd i sicrhau bod yr agenda digidol yn cael ei arwain ar lefel uwch. Y bwriad oedd y byddai'r newidiadau i'r strwythur uwch-reoli yn niwtral o ran cost.

**PENDERFYNWYD:**

1. y câi'r gwaith arfaethedig o ailfodelu'r Uwch Dîm Rheoli ei gymeradwyo dros dro yn amodol ar ganlyniad y broses ymgynghori.

2. y câi cyfnod ymgynghori ar y model arfaethedig ei gymeradwyo i gychwyn yn syth ar ôl cymeradwyaeth gan y cabinet.

3. y câi adroddiad arall ei gyflwyno ym mis Tachwedd a fydd yn rhoi cadarnhad o'r model a gynigir a'r broses ar gyfer newid gan ystyried materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori.

4. y câi awdurdod ei ddirprwyo i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelodau Cabinet i adlinio rheolwyr a staff cymorth â'r strwythur wedi'i ailfodelu.

***Officers (with the exception of the Chief Executive) were not present.***

The Cabinet received a report outlining proposals for consultation on an amended senior management structure which was in line with the Administration's priorities as outlined in Capital Ambition. The new model included a role at Corporate Director level which would oversee the integration of housing, social care and health strategies and address the service delivery and financial challenges of a growing city. A Chief Digital Officer was also proposed to ensure senior level leadership of the digital agenda. It was intended that the changes to the senior management structure would be cost neutral.

**RESOLVED:** that

1. the proposed remodelling of the Senior Management Team be approved on a provisional basis subject to the outcome of the consultation process.

2. a consultation period on the proposed model be approved to commence immediately following cabinet approval.

3. a further report be received in November which will provide confirmation of the model proposed and the process for change taking account of issues raised during the consultation process.

4. authority be delegated to the Head of Paid Service in consultation with the Leader and Cabinet Members to realign managers and support staff to the remodelled structure.

**ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 1 2017-18**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn nodi perfformiad y Cyngor ar gyfer chwarter 1 2017-18 a oedd yn rhoi crynodeb o'r cynnydd, y prif lwyddiannau a'r heriau a wynebwyd gan gyfarwyddiaethau.

**PENDERFYNWYD:** y nodir y sefyllfa bresennol o ran perfformiad, sut mae cyflawni ymrwymiadau a blaenoriaethau fel yn Chwarter 1, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â heriau i'r Cyngor.

**MONITRO CYLLIDEB - ADRODDIAD MIS 4**

Derbyniodd y Cabinet ddiweddariad am sefyllfa fonitro ariannol y Cyngor yn seiliedig ar bedwar mis cyntaf y flwyddyn, gan gynnwys yr alldro a ragamcenir ar gyfer 2017-18 o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2017. Adroddwyd y bu gorwariant rhagamcanol gwerth £883,000 a oedd yn adlewyrchu'r straen ariannol a wynebwyd gan y Cyngor a diffygion mewn

arbedion cyllidebol. Nodwyd bod camau'n cael eu cymryd gan gyfarwyddiaethau i ddatrys y sefyllfa.

**PENDERFYNWYD:**

1. y câi'r sefyllfa alldro bosibl ar sail pedwar mis cyntaf y flwyddyn ariannol ei nodi

2. y câi'r dyraniadau arian o'r Cyllidebau Tu Cefn Penodol i Ddatblygu Economaidd, Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y sonnir amdanynt yn yr adroddiad, eu nodi

3. y câi'r gofyniad ar yr holl gyfarwyddiaethau sydd ar hyn o bryd yn cofnodi gorwario fel y nodir yn yr adroddiad roi cynlluniau gweithredu ar waith i ostwng y gorwario a ragfynegir, ei atgyfnerthu.

**ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNTAF CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad Monitro blynyddol cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol. Gan mai hwn oedd yr adroddiad monitro cyntaf, nodwyd bod sefyllfa fyr dymor wedi'i darparu ac y byddai'n gweithredu fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol. Dosbarthwyd fersiwn ddiwygiedig o dabl OB1 EC13.

**PENDERFYNWYD:** y câi Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017.

**MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG TEITHIO ACTIF**

29 **MAP RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL INTEGREDIG**

Ystyriodd y Cabinet y Map Rhwydwaith Teithio Llesol Integredig i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd y Map yn cynnwys map rhwydwaith cerdded a seiclo ac yn cynnwys rhestr o gynllunio a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:**

1. y câi'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol Integredig (gan ystyried canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus) ei gymeradwyo ac;

2. y câi cyflwyno'r Map Rhwydwaith Integredig i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth, fel y nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau, ei awdurdodi